# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

## RHAN 5

CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD: TYNNU CYMERADWYAETH YN ÔL ETC

*Gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd*

### 37 Hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd

(1) Os yw CCAUC wedi ei fodloni bod amod yn is-adran (3) wedi ei ddiwallu mewn cysylltiad â sefydliad rheoleiddiedig, caiff roi hysbysiad o dan yr adran hon i gorff llywodraethu'r sefydliad.

(2) Mae hysbysiad o dan yr adran hon yn hysbysiad na fydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd sy'n ymwneud â'r sefydliad cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Yr amodau yw bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio—

- (a) ag adran 10(1) (dyletswydd i sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys),
- (b) â gofyniad cyffredinol yng nghynllun y sefydliad a gymeradwywyd,
- (c) cyfarwyddyd o dan adran 13 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun a gymeradwywyd),
- (d) â chyfarwyddyd o dan adran 19 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol), neu
- (e) â chyfarwyddyd o dan adran 33 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod).

(4) Nid yw corff llywodraethu i'w drin at ddibenion is-adran (3)(b) fel pe bai wedi methu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol mewn cynllun a gymeradwywyd os yw CCAUC wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad.

(5) Os yw CCAUC yn rhoi hysbysiad o dan yr adran hon i gorff llywodraethu sefydliad, ni chaiff CCAUC gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad arfaethedig sy'n ymwneud â'r sefydliad cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(6) Pan fo CCAUC wedi rhoi hysbysiad o dan yr adran hon—

(a) caiff dynnu'r hysbysiad yn ôl, a

(b) os gwna hynny, mae'r cyfyngiad yn is-adran (5) yn peidio â bod yn gymwys.

(7) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y cyfnod y caniateir ei bennu mewn hysbysiad o dan yr adran hon;

(b) y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad o dan yr adran hon neu ei dynnu'n ôl;

(c) y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â thynnu hysbysiad yn ôl.

(8) Os yw corff llywodraethu sefydliad nad yw'n sefydliad rheoleiddiedig yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd o dan adran 13, mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â'r sefydliad hwnnw fel y mae'n gymwys mewn perthynas â sefydliad rheoleiddiedig.

(9) Am y ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch hysbysiad o dan yr adran hon, gweler adrannau 41 i 44.

*Tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad presennol yn ôl*

## 38 Dyletswydd i dynnu cymeradwyaeth yn ôl

(1) Os yw CCAUC wedi ei fodloni nad yw sefydliad rheoleiddiedig bellach o fewn adran 2(3), rhaid iddo dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i'r cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â'r sefydliad drwy roi hysbysiad o dan yr adran hon i gorff llywodraethu'r sefydliad.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth wneud penderfyniad at ddibenion yr adran hon;

(b) y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad o dan yr adran hon.

(3) Caiff rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth fel y'i disgrifir yn is-adran (2)(b) (ymhlith pethau eraill) ddiwygio neu gymhwyso, gydag addasiadau neu hebddynt, unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan adrannau 41 i 44.

## 39 Pŵer i dynnu cymeradwyaeth yn ôl

(1) Os yw CCAUC wedi ei fodloni bod amod yn is-adran (2) wedi ei ddiwallu mewn cysylltiad â sefydliad rheoleiddiedig, caiff dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i'r cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â'r sefydliad drwy roi hysbysiad o dan yr adran hon i gorff llywodraethu'r sefydliad.

(2) Yr amodau yw—

(a) bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi methu'n fynych â chydymffurfio ag adran 10(1) (dyletswydd i sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn

mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys) neu wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu,

(b) bod y corff llywodraethu wedi methu'n fynych â chydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun y sefydliad a gymeradwywyd neu wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd o dan adran 13 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun a gymeradwywyd),

(c) bod ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran y sefydliad yn ddifrifol o annigonol, neu

(d) bod methiant difrifol wedi bod gan gorff llywodraethu'r sefydliad i gydymffurfio â'r Cod.

(3) Nid yw corff llywodraethu i'w drin at ddibenion is-adran (2)(b) fel be bai wedi methu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol mewn cynllun a gymeradwywyd os yw CCAUC wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad o dan yr adran hon.

(5) Am y ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch hysbysiad o dan yr adran hon, gweler adrannau 41 i 44.

*Cyhoeddi etc hysbysiad o dan y Rhan hon*

### 40 Cyhoeddi etc hysbysiad o dan y Rhan hon

(1) Os yw CCAUC yn rhoi hysbysiad o dan adran 37, 38 neu 39, rhaid iddo—

(a) rhoi copi o'r hysbysiad i Weinidogion Cymru, a

(b) cyhoeddi'r hysbysiad.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y mae CCAUC i gydymffurfio ag is-adran (1).